

MAE IESU YN DOD YN ÔL ETO


Mae llawer o'r proffwydoliaethau yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd wedi digwydd yn barod. Ond mae yna rai fydd yn digwydd yn y dyfodol pan mae Duw yn dweud. Byddan nhw i gyd yn siwr o ddigwydd! Cyn iddo gael ei gymryd i fyny i'r nefoedd wnaeth Iesu addo y bydd o'n dod yn ôl yr un ffordd ag yr aeth o at ei Dad. Does neb yn gwybod yn iawn pryd fydd Iesu yn dod yn ôl. Dim ond Duw ein Tad sy'n gwybod. Mae pawb sy'n ei garu yn disgwyl am hyn ac yn paratoi ar gyfer y diwrnod hwnnw. Maen nhw'n gweddio, "Tyrd Arglwydd Iesu!"



"Edrychwch! Dw i'n dod yn fuan! Bydd gen i wobr i'w rhoi i bawb, yn dibynnu ar beth maen nhw wedi'i wneud."

Datguddiad 22:12

Gwnaeth Iesu addo y bydd o'n dod yn ôl! Y tu mewn i'r ddrysfâ, gwna lun o'r bobl sy'n credu yn Iesu ac sy'n aros iddo ddod yn ôl. Wedyn helpa nhw i ffindio eu ffordd allan!



Gwers 32

MAE IESU YN DOD YN ÔL

Testun Beibl: Datguddiad 22:12-21

Adnod allweddol: Datguddiad 22:12

Pwrpas: Bydd y plant yn deall fod Iesu yn mynd i ddod yn ôl ail waith a'i bod yn bwysig sut y byddwn ni bryd hynny – yn credu yn Iesu Grist ac efo calon bur, ac nid efo calon wedi ei llygru gan bechod.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer y plant yn eich grwp. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grwp ynghyd a'r amser sydd ar gael.

I. Gwers

I ddechrau, gallwch ddefnyddio'r stori hon i ddarlunio:

Cyn gweithio ar y daflen liwio, dywedwch wrth y plant am y broffwydoliaeth fod Iesu yn dod yn ôl ail waith.

Yn y Beibl mae yna lawer o broffwydoliaethau wnaeth ddigwydd. Dyma rai ohonyn nhw:

1. Y byddai'r neidr (Satan), wnaeth dwyllo Efa, yn cael ei ddifa gan 'had y wraig' neu 'disgynydd gwraig' (Genesis 3:15). Mae hyn yn digwydd yn y Testament Newydd; Iesu ei hun ydy 'had y wraig'.
2. Y byddai Abraham yn dad i lawer iawn o bobl, er nad oedd ganddo fo fab bryd hynny (Genesis 15:5). Wnaeth yr addewid yma ddod yn wir. Mi wnaeth Abraham ddod yn dad i lawer iawn o bobloedd.
3. Y byddai Gwaredwr yn dod i'r ddaear (Eseia 9:6-7). Wnaeth y broffwydoliaeth yma ddod yn wir pan wnaeth Iesu ddod i'r ddaear.

Mae llawer iawn o broffwydoliaethau eraill yn y Beibl wedi dod yn wir. Mae hyn yn dangos fod Duw yn cadw ei addewidion.

Mae yna rai proffwydoliaethau yn y Beibl sydd heb ddigwydd eto. Y prif broffwydoliaeth ydy fod Iesu yn mynd i ddod yn ôl un diwrnod yn yr un ffordd ag y gwnaeth o fynd at ei Dad. Mi wnaeth Iesu ei hun addo hyn pan oedd ar y ddaear (Mathew 24:30; Actau 1:11 ayb). Yn Datguddiad 22:12-21 mae Iesu yn dweud y bydd yn dod yn fuan ac yn rhoi gwobr i bob person yn dibynnu ar eu gweithredoedd. Bydd y bobl sydd wedi derbyn maddeuant Iesu (sydd yn credu fod Iesu yn fab Duw, sydd wedi gofyn iddo ddod i'w bywyd ac sy'n byw fel mae Duw eisio iddyn nhw fyw) yn cael bywyd am byth efo Iesu.

Darllenwch Datguddiad 22:12-21 wedyn holwch y cwestiynau yma:

Cwestiwn: Pwy sy'n cael mynd i'r nefoedd?

Ateb: Y rhai sy'n glanhau eu dillad fel yn Datguddiad 22:14. Darlun ydy hyn o 'lanhau' ein calon. Dim ond y bobl sy'n lân, y rhai sydd wedi derbyn maddeuant lesu ac sy'n blant i Dduw, sy'n cael mynd i'r nefoedd.

Cwestiwn: Yn ôl y Beibl, pwy sydd ddim yn cael mynd i'r nefoedd?

Ateb: Y bobl sy'n gwrthod credu yn lesu ac yn gwrthod ffordd lesu o fyw.

Dyma'r math o bobl sydd ddim yn cael mynd i'r nefoedd:

- cŵn – enw ar bobl sy'n mwynhau brifo bobl eraill
- y rhai sy'n ymarfer dewiniaeth – gwrrachod a bobl sy'n ceisio gwybod y dyfodol
- pobl anfoesol – bobl sy'n cambihafio yn rhywiol
- llofruddion – bobl sy'n lladd neu yn trin bobl eraill yn annheg
- y rhai sy'n addoli eilun-dduwiau – bobl sy'n addoli duwiau eraill neu yn caru pethau eraill yn fwy na maen nhw'n caru Duw
- pawb sy'n caru twyllo – bobl sy'n caru deud celwydd a ddim yn caru'r gwir.

Mae bobl sy'n gwneud y pethau yma yn dilyn Satan. Does yna ddim pechod lle mae Duw. Dyna pam gall y bobl sydd ddim wedi eu glanhau efo gwaed lesu fynd i mewn i deyrnas Dduw.

Dyma weithgaredd i egluro hyn i'r plant:

Cymrwch ddilledyn smart (crys / ffrog) ond sy'n fudr ac yn drewi. Gofynnwch i'r plant, "Ydy hwn yn grys smart?" Wel, roedd yn smart iawn ond rwan mae o'n fudr ac yn drewi. Wyt ti'n medru ei wisgo fo i briodas? Fasai'r person yn edrych yn dda? Na fasai. Ar hyn o bryd dydy'r crys ddim yn edrych nac yn arogl yn dda. Beth sy'n rhaid i ni wneud i gael gwared o'r budreddi a'r arogl drwg? Rhaid i ni ei olchi. (Yr athro yn golchi'r crys nes ei fod yn edrych ac yn arogl yn well.) Dangoswch y crys glân i'r plant a gofynnwch, Fasai person yn medru gwisgo hwn i briodas rwan? Basai. Mae'n edrych yn well o lawer. Mae'r un peth yn digwydd efo'n calonnau ni. Mae pechod yn gwneud ein calonnau yn fudr. Beth sy'n medru golchi ein calonnau ni? Dim dŵr a sebon yn siwr! Dim ond lesu sy'n medru golchi ein calonnau. Mi wnaeth o farw dros bawb. Mi wnaeth o farw a dod yn ôl yn fyw eto er mwyn i ni gael bywyd am byth. Os dywedwn wrth lesu ein bod wedi pechu / gwneud pethau anghywir a gofyn am ei faddeuant, byddwn yn dod yn lân.

II Gweithgareddau

1 Yr adnod allweddol

a) Darllenwch yr adnod yn uchel.

"Edrychwch! Dw i'n dod yn fuan! Bydd gen i wobr i'w rhoi i bawb, yn dibynnu ar beth maen nhw wedi'i wneud." Datguddiad 22:12

b) Eglurwch yr adnod

“Dw i’n dod yn fuan!” – dyma addewid Iesu a hefyd proffwydoliaeth fawr. Bydd bob proffwydoliaeth yn y Beibl yn dod yn wir, a hwn hefyd!

“Bydd gen i wobr i’w rhoi i bawb ...” – Bydd Iesu yn rhoi gwobr i bob person pan fydd yn dod yn ôl.

“yn dibynnu ar beth maen nhw wedi’i wneud.” – Bydd Iesu yn rhoi gwobr i bob person yn dibynnu ar eu gweithredoedd. Dydy’r rhai sy’n caru Iesu ddim yn cael gwneud pethau drwg hefyd. Rhaid iddyn nhw ddewis bod yn ufudd i orchmynion Iesu.

c) Helpwch y plant i ddysgu’r adnod. Gallwch ddefnyddio gemau neu gystadleuaeth.

2 Cwestiynau adolygu i’r plant.

- Am ba un o addewidion Iesu ydyn ni wedi siarad heddiw?
- Pwy wnaeth siarad am Iesu yn dod yn ôl?
- Sut medr ein calonnau gael eu gwneud yn lân?
- Pwy mae’r Beibl yn dweud sydd ddim yn cael mynd i mewn i deyrnas Dduw?
- Pwy sy’n cael mynd i mewn i deyrnas Dduw?
- Oes yna rhywun ar y ddaear sy’n gwybod pryd bydd Iesu yn dod yn ôl?
- Beth fydd Iesu yn roi i ni pan fydd yn dod yn ôl?

III Diwedd glo

Os basai’r Arglwydd Iesu yn dod yn ôl y foment yma, wyt ti’n barod i’w gyfarfod? Mae Iesu yn dy garu di yn fawr iawn. Mae ganddo fo gynllun ar gyfer dy fywyd di. Bydd pawb ddim yn cael mynd i mewn i deyrnas Dduw; dim ond y bobl sy’n dilyn yr Arglwydd Iesu. Mae ein pechodau fel wal sy’n dod rhyngddon ni â Duw. Ond daeth Iesu i’r ddaear i dynnu’r wal yna i lawr. Wyt ti eisio iddo wneud hynny i ti hefyd? Gofyn iddo wneud hynny ac un diwrnod mi fyddi di yn cael ei weld hefyd.